# Dyddiau da

## Trawsffurfiadau

| | |
|---|---|
| AMELIA | Felly, rho dro ar y feddalwedd ‘nabod llais newydd ‘ma. Mae’n ymateb i’r enw SAL. Mi fydda i yn ôl toc i ddarllen dy erthygl. |
| GARETH | Ocê, diolch. SAL, agora’r ffeil ‘Hei Gareth 71’. |
| SAL | Ffeil ar agor. |
| GARETH | Neis. Fflipa fe, symud e i’r blaen, a’r canol. Fe fydd y selfie yma’n werth ei weld. |
| SAL | Mae’n flin gen i Gareth, alla i ddim gwneud hynny. |
| GARETH | SAL! Fflipa fe, tro fe a rho fe yn y canol. |
| SAL | Mae’n flin gen i Gareth. |
| AMELIA | Rwyt ti angen defnyddio geirfa mae’n ei deall. Tria ‘adlewyrcha’, a byddai grid yn handi. |
| GARETH | O, o’r gorau, iawn. Troshaena grid. Adlewyrcha ‘Hei Gareth 71’. |
| SAL | Angen llinell ddrych. |
| GARETH | Llinell $x$ yn hafal i 6. |
| | Safio. Hmm, beth yw hwn? |
| | Gwna hwn yn fwy. |
| SAL | Ai helaethu rwyt ti’n ei feddwl? |
| GARETH | Ie. |
| SAL | Yna dyweda ‘helaetha’. |
| GARETH | Ocê. Helaetha’r detholiad 4 gwaith. |
| SAL | Wyt ti’n golygu hyd graddfa 4 neu arwynebedd graddfa 4? |
| GARETH | Hyd graddfa 4, wrth gwrs. |


© Hawlfraint BBC

| | |
|---|---|
| SAL | Wrth gwrs, dim problem. Mae angen canol yr helaethiad. |
| GARETH | Cyfesurynnau 9 coma 7. |
| | Ah, roeddwn i'n gwybod mai dim fi oedd ar fai am y tywyllwch! |
| | SAL, trawsfuda'r helaethiad gyda'r fector -3,-2. Arbed a chau'r helaethiad. Nawr, amser i dy osod di yn y man gorau. |
| | Cylchdroi 90° glocwedd. |
| SAL | Gwrthglocwedd yn unig. Mae gen i fy rhesymau. |
| GARETH | O'r gorau, cylchdroi 270° gwrthglocwedd. |
| SAL | Canol y cylchdroi… |
| GARETH | 7 coma 4! |
| | Arbed. Sgrin lawn. |
| | Ah, dyddiau da. |


© Hawlfraint BBC